# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ionawr 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd W. T. Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W.J. Chorlton, E.G. Davies, Jim Evans, K.P. Hughes, Thomas Jones, R.L. Owen, Eric Roberts, Hefin Thomas, J. Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Prif Beiriannydd (Rhwydwaith)(HP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Clive McGregor, Mr Robyn Jones (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Y Cynghorydd Aled Morris Jones ar gyfer Cais 11.3 |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb fel a nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd a chofnodwyd y datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2011, yn amodol ar y materion canlynol:

- Gan gyfeirio at Gais 6.2, eglurodd y Cynghorydd J. P. Williams mai'r hyn yr oedd yn cyfeirio ato ym mharagraff 3 o dan yr eitem hon oedd bod y ddadl wedi cael ei defnyddio gan swyddogion mewn perthynas â chynnig Datblygiad Tŷ Mawr sef y gall ystyriaethau economaidd weithiau fod yn gryfach nag ystyriaethau cynllunio, ac felly o agwedd lled- gyfreithiol, fe ellid bod wedi creu cynsail.
- Gan gyfeirio at Gais 11.8, eglurodd y Cynghorydd J. P. Williams ei fod wedi nodi y byddai'n eilio'r cais ar yr amod fod Cytundeb Adran 106 yn cael ei osod er mwyn sicrhau na fyddai yna unrhyw ddatblygu pellach ar y safle, ac wedi hynny, yn dilyn derbyn cyngor nad oedd hynny'n briodol, roedd aelod arall wedi eilio'r cynnig.
- Gan gyfeirio at Gais 12.7, i ddileu enw'r Cynghorydd W. T. Hughes o'r rhestr o rai oedd wedi'u cofnodi fel rhai a bleidleisiodd i wrthod y cais ac i nodi, felly, bod y bleidlais yn 4 o blaid y cais a 6 yn erbyn y cais.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn dilyn cyfarfod 7 Rhagfyr 2011.

**5 Y CYHOEDD YN SIARAD**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn dymuno siarad yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 6 CEISIADAU A OHIRIWYD

### 6.1 11C572 - Codi tyrbin gwynt gyda hwb a fydd ddim uwch na 15m, diamedr rotor o hyd at 9.7m ac uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85 ar dir yn Tal y Llyn, Mynydd Parys, Amlwch.

*Datganodd y Cynghorwyr W. T. Hughes a Thomas Jones ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth y ddau allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cais hwn ochr yn ochr â chais 6.2.

Roedd y cais yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi cael ei thalu gan Gynghorydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, roedd yr Aelodau wedi penderfynu gohirio ystyried y cais hwn er mwyn gallu cynnal gwaith ymgynghori pellach ynglŷn â lefelau sŵn. Yr argymhelliad oedd gohirio ystyried y cais hyd nes y byddid wedi cwblhau'r gwaith ymgynghori ynglŷn â lefelau sŵn.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

### 6.2 44C288 - Codi tyrbin gwynt gyda hwb a fydd ddim uwch na 15m, diamedr rotor o hyd at 9.7m ac uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85 ar dir ym Mhensarn, Rhosgoch.

*Datganodd y Cynghorwyr W. T. Hughes a Thomas Jones ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth y ddau allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cais hwn ochr yn ochr â chais 6.2.

Roedd y cais yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi cael ei thalu gan Gynghorydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, roedd yr Aelodau wedi penderfynu gohirio ystyried y cais hwn er mwyn gallu cynnal gwaith ymgynghori pellach ynglŷn â lefelau sŵn. Yr argymhelliad oedd gohirio ystyried y cais hyd nes y byddid wedi cwblhau'r gwaith ymgynghori ynglŷn â lefelau sŵn.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

Nododd y Cynghorydd J. P. Williams y byddai'n hoffi ymweld â'r safle yng nghynnig 6.1. Roedd y Cynghorydd W. J. Chorlton yn cytuno gyda'r Cynghorydd Williams a dywedodd ei fod yn credu y byddai o fudd iddo yn bersonol weld y ddau safle. Dywedodd y Cadeirydd bod y penderfyniad i ohirio'r ddau gais wedi'i wneud.

## 7 CEISIADAU'N CODI O'R COFNODION

### 7.1 47C1161 – Cais llawn am waith altro ac ymestyn yn Bronwen, Llantrisant

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yr Aelodau wedi penderfynu yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor i ganiatáu'r cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog ar y sail bod yna eisoes annedd yn bodoli ac y byddai'r estyniad arfaethedig yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi 55 y Cynllun Lleol a Pholisi HP8 y CDU a Stopiwyd. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, roedd y cais yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau fel y gallent ystyried eu penderfyniad blaenorol. Ymateb y Swyddog i'r rhesymau dros ganiatáu a roddwyd ymlaen gan yr Aelodau oedd na allai'r adain gefnogi'r cais oedd dan ystyriaeth oherwydd nifer yr estyniadau oedd eisoes wedi'u caniatáu yn y cynllun addasu gwreiddiol a hynny oherwydd y byddai'n cyfateb i fwy na dim ond estyniadau bychan o ystyried y datblygiad yn ei gyfanrwydd. Roedd hyn yn groes i Bolisi 55 Cynllun Lleol Ynys Môn, HP8 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd yn ddiweddar - Addasiadau (mabwysiadwyd 8 Rhagfyr 2011). Roedd yr argymhelliad felly yn parhau yn un o wrthod y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Owen y dylid ategu penderfyniad blaenorol y Pwyllgor wnaed yng nghyfarfod y mis cynt i ganiatáu ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Eric Roberts. Argymhellodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y dylid rhoi amod pe bai'r Pwyllgor yn cadarnhau yn ffurfiol ei fod yn caniatáu'r cais, bod y datblygiad yn cael ei weithredu yn hollol unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.

**Penderfynwyd cadarnhau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog a chyda'r amod a roddwyd gerbron gan y Swyddog.**

*(Ni wnaeth y Cynghorwyr W. J. Chorlton a Kenneth Hughes bleidleisio ar y cais gan nad oeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol pan gafodd y cais ei ystyried yn wreiddiol).*

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Nid oedd unrhyw geisiadau economaidd i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY**

Nid oedd unrhyw geisiadau tai fforddiadwy i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**10 CEISIADAU'N GROES I BOLISI**

Nid oedd unrhyw geisiadau croes i bolisi i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**11 CYNIGION DATBLYGU GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

**11.1 16C189A – Cais llawn ar gyfer cynlluniau diwygiedig am waith altro ac ymestyn yn 22 Stad Ty'n Berllan, Bryngwran**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn ŵr i un sy'n gweithio yn yr Awdurdod Lleol. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.19.4 y Cyfansoddiad. Mae safle'r cais ar stad Ty'n Berllan ym mhentref Bryngwran. Byngalo ar ei ben ei hun yw'r eiddo. Y prif faterion yr oedd angen eu hystyried oedd dyluniad y datblygiad a'r effaith ar eiddo cymdogion.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y Pwyllgor wedi caniatáu cais llawn yn flaenorol ar gyfer altro ac ymestyn 22 Ty'n Berllan, Bryngwran ym mis Gorffennaf 2011. Roedd y cynlluniau newydd ychydig yn fwy o ran maint a hynny'n golygu bod y cynnig yn awr yn ymwthio ymhellach i flaen yr eiddo na'r un cynt. Fodd bynnag, roedd cymeriad yr eiddo yn parhau'r un fath â'r hyn gafodd ei ganiatáu cyn hyn ac mae yna le derbyniol ar y safle i gymryd yr estyniad. Ail-ymgynghorwyd gyda thrigolion yr eiddo cyfagos ynglŷn â'r cynlluniau newydd ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig yn edrych yn un boddhaol o ran ei leoliad, ei ddyluniad a deunyddiau. Yr argymhelliad felly oedd caniatáu'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**11.2 25C215 – Cais amlinellol gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer codi annedd a garej ddwbl ar wahân a chreu mynedfa newydd a gwaith preifat newydd ar gyfer trin carthion ar dir ger Ceunant, Bachau, Coedana, Llannerch-y-medd.**

Roedd y cais hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i'r Aelod Leol a hefyd oherwydd ei fod yn gais oedd yn groes i Gynllun Lleol Ynys Môn ond y gellid ei gefnogi o dan ddarpariaethau'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 Cyfansoddiad y Cyngor. Llain o dir ger Ceunant ym mhentrefan Bachau ger Llannerch-y-medd oedd safle'r cais.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio - o safbwynt yr egwyddor o ddatblygu, er bod y safle'n cael ei ystyried fel un sydd yn y cefn gwlad o dan Bolisi Cynllun Lleol Ynys Môn, mae'n cael ei nodi fel pentrefan cefn gwlad a chlwstwr ym Mholisi HP5 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd ac mae hwnnw yn ystyriaeth o bwys sy'n cario cryn bwysau. Roedd y cynnig yn cydymffurfio hefyd gydag egwyddorion paragraff 9.3.2 Polisi Cynllunio Cymru (Cyfrol 4) oedd yn dweud y gall mewnlenwi sensitif mewn bylchau bychan, neu estyniadau bychan i grwpiau o anheddau fod yn dderbyniol. Ystyrir bod y cynnig hwn yn dderbyniol o dderbyn asesiad pellach o'r manylion draenio a chynnwys amodau priodol fel oedd yn adroddiad y Swyddog. Roedd yr argymhelliad felly yn un o ganiatáu.

Holodd y Cynghorydd J. P. Williams a oedd y materion draenio yr oedd cyfeiriad atynt yn Adran 6 adroddiad y Swyddog wedi'u datrys erbyn hyn.  Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio na fyddai unrhyw benderfyniad yn cael ei ryddhau ar y cais hyd nes y byddai'r materion draenio wedi cael eu datrys.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**11.3  44C290A – Codi 2 dyrbin gwynt gyda hwb a fydd dim uwch na 26.6m, diamedr rotor o hyd at 20m a hyd llafn mwyaf o 39m ar dir yn Bodneithior, Llandyfrydog**

*Datganodd y Cynghorwyr W. T. Hughes a Thomas Jones ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth y ddau allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Roedd y cais yn dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i un o swyddogion y Cyngor. Byddai'r tyrbinau wedi'u lleoli mewn cae amaethyddol tua 45m i ffwrdd o'r ffordd sy'n arwain o Landyfrydog i Maenaddwyn.

Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones, yr Aelod Lleol yn dymuno iddo gael ei nodi, ac yn groes i'r datganiad wnaed yn yr adroddiad o dan Adran 4, nad oedd unrhyw ymateb wedi cael ei dderbyn gan yr Aelod Lleol oherwydd mai ef fel yr Aelod Lleol oedd wedi galw'r cais i mewn.  Gofynnodd i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle ynglŷn â'r cais hwn.

Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas am gytuno gyda'r Aelod Lleol a chynigiodd bod ymweliad safle'n cael ei gynnal oherwydd bod y datblygiad hwn yn un mwy na'r cynigion eraill o'r math hwn oedd wedi'u cyflwyno cyn hyn i'r Pwyllgor gan fod y cais hwn yn un i godi dau dyrbin ac roedd yn teimlo y byddai gweld y safle yn helpu'r aelodau i benderfynu a oedd y datblygiad yn un addas i'r ardal.  Eiliodd y Cynghorydd W. J. Chorlton y cynnig. Awgrymodd y Cynghorwyr Hefin Thomas a W. J. Chorlton ymhellach y gellid hefyd gynnwys safleoedd ceisiadau 6.1 a 6.2 yn yr ymweliad safle a dywedodd y Cadeirydd unwaith yn rhagor bod penderfyniad wedi'i wneud i ohirio'r ddau gais hwnnw.  Cyfeiriodd  y Cynghorydd R. L. Owen at lythyr yr oedd yr Aelodau wedi'i dderbyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol yn ymwneud â seminar arfaethedig ar y materion hyn ac awgrymodd y byddai'n ddoeth i ohirio gwneud penderfyniad ar y cais hwn tan ar ôl y seminar.  Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas yn anghytuno a dywedodd ei fod yn glynu wrth ei gynnig y dylid cael ymweliad safle.

**Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a roddwyd.**

## 12  GWEDDILL Y CEISIADAU

**12.1   17C467 – Dymchwel, altro ac ymestyn yn 7 Millbank, Llandegfan**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn ddod gerbron y Pwyllgor.  Roedd safle'r cais ar Stad Millbank. Estyniad deulawr ar ei ben ei hun oedd yr eiddo.  Y prif faterion yma oedd dyluniad y datblygiad a'i effaith ar dai cymdogion.  Yr argymhelliad oedd caniatáu.

Eglurodd y Cynghorydd E. G. Davies ei fod wedi galw'r cais i mewn oherwydd nad oedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben hyd 6 Ionawr ac oherwydd nad oedd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned wedi'i gynnal ac felly nid oedd yn gwybod beth oedd y teimladau'n lleol ynglŷn â'r cais.  Fodd bynnag, ers hynny roedd wedi edrych ar y ffeil ynglŷn â'r cais ac wedi gweld nad oedd unrhyw wrthwynebiadau na sylwadau wedi'u derbyn ynglŷn ag ef. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau fod yn wyliadwrus wrth ymarfer eu hawl i alw cais i mewn gan fod hynny'n golygu bod yn rhaid i Swyddogion dreulio amser yn paratoi ac yn casglu adroddiadau i'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.** ***(Ni wnaeth y Cynghorydd E. G. Davies fel yr Aelod Lleol bleidleisio ar y cais)***

**12.2 27LPA952/CC – Cais llawn i adeiladu pont droed dros Afon Alaw er mwyn gallu creu darn newydd o Lwybr Arfordirol Ynys Môn rhwng y Fali a Llanfachraeth ar dir ger Neuadd Wen, Llanfachraeth**

Yr Awdurdod Lleol oedd wedi cyflwyno'r cais. Roedd y tir yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Beddmanarch Cymyran. Y prif faterion gyda'r cais oedd – a fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd oddi amgylch a'i gyfraniad tuag at nod y Cyngor o ddarparu llwybrau arfordirol. O ystyried y prif ystyriaethau cynllunio, casgliad y Swyddog oedd bod y cynnig yn cydymffurfio gyda pholisi lleol ac na fyddai'n cael unrhyw effaith andwyol ar yr AHNE ddynodedig na'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yr argymhelliad felly oedd un o ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.** ***(Ni wnaeth y Cynghorydd Kenneth Hughes fel yr Aelod Lleol bleidleisio ar y cais)***

**12.3 30C728 – Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw wrth gefn i godi annedd ynghyd â chreu mynedfa newydd a gosod gwaith trin carthffosiaeth ar dir ger Meusydd, Llanbedrgoch**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn ddod gerbron y Pwyllgor. Roedd safle'r cais ym mhentref Llanbedrgoch ar dir ger Meusydd. Y prif faterion yma oedd a fyddai'r cynnig yn dderbyniol o safbwynt polisi a hefyd ei effaith ar fwynderau eiddo cyfagos. Casgliad y swyddog oedd ei fod yn credu bod y cynnig yn dderbyniol gydag amodau, a'r argymhelliad felly oedd caniatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu; eiliwyd ef gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**12.4 32C17H – Dymchwel yr hen swyddfa/stor a'r eiddo elwir yn Refail a chodi 5 o fythynnod gwyliau dwy lofft mewn cysylltiad â gwaith lledu'r ffordd oddi ar y safle yng Ngwesty Cymyran, Llanfair-yn-Neubwll**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio. Mae safle'r cais o fewn clwstwr o anheddau yn Llanfair-yn-Neubwll ac mae'n ffurfio rhan o adeiladau Gwesty Cymyran. Ceir annedd wag a swyddfa ar y safle ar hyn o bryd. Y cynnig yw dymchwel y rhain a chodi teras o 5 bwthyn gwyliau. Y prif faterion i'w hystyried oedd a fyddai'r cynnig yn cael effaith ar fwynderau'r eiddo oddi amgylch, ar gymeriad yr ardal leol neu'n cael effaith ar ddiogelwch y briffordd. O ystyried y prif ystyriaethau cynllunio, yr argymhelliad oedd un o ganiatáu.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio - pe bai'r Pwyllgor yn caniatáu'r cais, roedd yn dymuno tynnu ei sylw at fwriad i ail-eirio Amod 10 fel yr oedd yn yr adroddiad ar hyn o bryd fel bod yr amod yn darllen - "Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo'r gwaith i wella'r briffordd y manylir arno ar ddyluniad rhif AL(10) 03 dyddiedig 7/4/2011 wedi cael ei gwblhau er boddhad ysgrifenedig y Cyngor."

Cynigiodd y Cynghorydd J. P. Williams bod y cais yn cael ei ganiatáu.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a restrwyd a chan ail-eirio Amod 10 fel yr oedd y Swyddog wedi'i nodi.** ***(Ni wnaeth y Cynghorydd Hefin Thomas bleidleisio ar y cais hwn na chymryd rhan yn y drafodaeth arno).***

**12.5 41LPA916D/CC – Cais llawn i ddileu amod (14) o ganiatâd cynllunio 41LPA916B/CC i gadw'r fynedfa gyfredol yn Gwyndy, Penmynydd**

Cais wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol oedd hwn ar dir y Cyngor. Roedd y safle oddi ar y B5420 ac y mae ar hyn o bryd yn rhan o fân-ddaliad y Cyngor. Gellir mynd i'r safle ar hyn o bryd ar hyd trac fferm sengl. Cafodd ceisiadau cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig eu caniatáu yn ddiweddar i addasu'r adeiladau allanol ar y safle i ffurfio 8 uned breswyl. Roedd y ffermdy ei hun yn Gwyndy wedi ei adael allan o'r ceisiadau hyn ond y bwriad oedd cau'r fynedfa bresennol i gerbydau sy'n gwasanaethu'r tŷ fferm a'r adeiladau a chreu mynedfa newydd i'r datblygiad gyda ffordd arall yn rhedeg oddi arni i wasanaethu'r ffermdy. Er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdodau yn y dyfodol o safbwynt perchenogaeth, hawliau tramwy a materion cynnal a chadw, gwneir cais yn awr i ddileu Amod 14 (oedd yn gofyn am i'r fynedfa gyfredol gael ei chau o fewn mis i ddefnyddio'r fynedfa newydd) er mwyn gallu ei chadw fel mynedfa ar wahân i'r ffermdy. Bydd y safle datblygu yn parhau i ddefnyddio'r trefniadau mynediad newydd.

Mewn ymateb i gais gan yr Aelodau am eglurhad o'r cynigion, fe eglurodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio yr hyn oedd gerbron trwy gyfeirio at gynllun o'r safle. Dywedodd bod yr adeiladau allanol i'w haddasu yn unedau tai tra roedd y fferm i'w chadw fel fferm weithredol. Y bwriad ar y pryd oedd creu mynedfa newydd i'r datblygiad gyda ffordd yn mynd oddi arni i roi mynediad i'r ffermdy. Y bwriad yn awr yw bod y datblygiad tai yn cadw'r fynedfa newydd, ond hefyd bod y fynedfa i'r ffermdy presennol yn cael ei chadw a'i gwella a'i bod yn gwasanaethu'r fferm weithredol.

Nododd y Cynghorydd W. J. Chorlton mai'r hyn oedd yn bwysig oedd sicrhau bod y cerbydau oedd yn mynd i'r fferm a'r rhai oedd yn mynd i'r unedau preswyl yn cael eu cadw ar wahân.

Roedd y Cynghorydd E. G. Davies yn croesawu'r cais fel un oedd yn gwella'r safle a chynigiodd bod y cais yn cael ei ganiatáu. Eiliwyd ef gan y Cynghorydd Kenneth Hughes. Holodd y Cynghorydd Thomas Jones a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw fantais o ran priffyrdd. Dywedodd yr Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) na fyddai unrhyw newidiadau yn y ffordd ei hun, ond fe fyddai yna welliant o ran gwelededd o'r pwynt mynediad cyfredol.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod yn dymuno ei gwneud yn glir nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau i'r cais ond ei fod yn bryderus bod cais i newid pethau'n cael ei wneud mor fuan ar ôl i'r cais gwreiddiol gael ei ganiatáu.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**13 RHAN DAU – GORCHMYNION**

**13.1 GORCHYMYN (CYFYNGIADAU AROS) (FFYRDD AMRYWIOL BIWMARES) CYNGOR SIR YNYS MÔN 2011**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) ynglŷn â Gorchymyn Traffig arfaethedig (Cyfyngiadau Aros)(Ffyrdd Amrywiol Biwmares), i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd copi o'r Rhybudd o gynigion a'r cynlluniau ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad. Roedd y Gorchymyn arfaethedig wedi'i baratoi mewn ymateb i geisiadau a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Biwmares a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gofyn am gyfyngiadau parcio er lles diogelwch y ffordd ac i fynd i'r afael â rhai materion rheoli traffig eraill.

Dywedodd y Prif Beiriannydd (Rhwydwaith) wrth y Pwyllgor bod yr Awdurdod Priffyrdd wedi ymgynghori'n llawn gyda Chyngor Tref Biwmares cyn cychwyn y broses ymgynghori ffurfiol. Ymgynghorwyd hefyd gyda Heddlu Gogledd Cymru ar y cynnig a chyda nifer o Ymgynghorwyr Statudol eraill oedd wedi'u rhestru yn yr adroddiad. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig ac nid oedd y Gwasanaethau Argyfwng wedi gwrthwynebu'r cynigion. Yn ystod y cyfnod hysbysebu ffurfiol, fe gafwyd tri gwrthwynebiad ac roedd y rhain ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiadau 2, 3 a 4. I grynhoi, byddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn cael eu gosod er mwyn sicrhau llif rhydd y traffig, gwella amseroedd ymateb y Gwasanaethau Argyfwng a hyrwyddo diogelwch y briffordd. Roedd y cynigion yn ceisio mynd i'r afael â'r mannau hynny lle nodwyd bod problemau rheoli traffig. Cadarnhaodd y Cynghorydd R. L. Owen bod Cyngor Tref Biwmares yn fodlon gyda'r Gorchymyn.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod yn credu bod y Gorchymyn arfaethedig yn gwella'r sefyllfa yn y dref a chynigiodd ei fod yn cael ei gymeradwyo. Eiliodd y Cynghorydd W. J. Chorlton y cynnig.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol â'r Cynlluniau a'r Gorchymyn a hysbysebwyd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor.** ***(Ni wnaeth y Cynghorydd R. L. Owen, fel Aelod Lleol, bleidleisio ar y cais hwn na chymryd rhan yn y drafodaeth arno).***

**Y Cynghorqydd J. Arwel Roberts**
**Cadeirydd**